Cofnodion Cyfarfod y PWYLLGOR MOESEG A SAFONAU a gynhaliwyd yn hybrid yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell drwy fideogynadledda ddydd Gwener, 19 Gorffennaf 2024

YN BRESENNOL: Ms Gail Storr a Mr Alan Davies (Aelodau Annibynnol)

Y Cynghorydd Gwyn Wigley Evans (Aelod Etholedig – Cyngor Sir Ceredigion)
Y Cynghorydd Delyth James (Cynrychiolydd y Cynghorau Tref a Chymuned)

HEFYD YN BRESENNOL:
Ms Elin Prysor (Swyddog Monitro)
Mrs Lisa Evans (Swyddog Craffu a Safonau)
Mrs Dana Jones (Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd a Safonau)
Mrs Patricia Armstrong (Dirprwy Swyddog Monitro)

(10:00am-12:05pm)

)

1 Gweithdrefn
Yn absenoldeb y Cadeirydd, cadeiriwyd y cyfarfod gan yr Is-gadeirydd, Ms Gail Storr.

2 Ymddiheuriadau
Ymddiheurodd Miss Caryl Davies a Ms Carol Edwards am na fedrent ddod i'r cyfarfod.

Esgusodwyd y Cynghorydd Caryl Roberts o'r cyfarfod oherwydd, yn unol â chyfansoddiad y Cyngor o ran cworwm y pwyllgor, roedd angen o leiaf tri aelod yn bresennol ac roedd angen i o leiaf hanner yr aelodau a oedd yn bresennol (gan gynnwys y Cadeirydd) fod yn Aelodau Annibynnol.

3 Materion Personol
None.

4 Datgelu buddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu
Datgelodd Ms Elin Prysor fuddiant personol a buddiant a oedd yn rhagfarnu o dan eitemau 6 (a) i 6 (d). Roedd y Dirprwy Swyddog Monitro yn bresennol i gynghori Aelodau'r Pwyllgor pan drafodwyd yr eitemau hyn.

Datgelodd Mrs Dana Jones fuddiant personol a buddiant a oedd yn rhagfarnu o dan eitemau 6 (a) i 6 (d). Y Swyddog Craffu a Safonau fu'n cymryd y cofnodion pan drafodwyd yr eitemau hyn.

5 Cadarnhau cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Moeseg a Safonau a gynhaliwyd ar 06 Mawrth 2024

PENDERFYNWYD cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 06 Mawrth 2024 yn gywir.

6 Cadarnhau cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Moeseg a Safonau a gynahliwyd ar 01 Mai 2024

PENDERFYNWYD cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 01 Mai 2024 yn gywir.

7 Ystyried ceisiadau am ollyngiadau gan y Cynghorwyr canlynol:

8 Cynghorydd Elizabeth Ryder, Cyngor Tref Cei Newydd

Derbyniwyd cais dyddiedig 27 Mehefin 2024 oddi wrth y Cynghorydd Elizabeth Ryder, Cyngor Tref Ceinewydd i siarad a phleidleisio ynghylch y cais cynllunio gan Gymdeithas Tai Barcud ar gyfer tai cymdeithasol / fforddiadwy yn y maes parcio uchaf (oddi ar Stryd y Parc). Roedd ei mab, ei nith a'i nai yn berchen ar faes parcio Heol y Dŵr yng Ngheinewydd ac roeddent yn rhedeg y maes parcio. Pe cytunir i'r cais cynllunio gan Gymdeithas Tai Barcud ar gyfer tai, byddai llefydd parcio yn y maes parcio uchaf (oddi ar Stryd y Parc) yn cael eu colli. Gallai hyn arwain at bobl yn chwilio am lefydd eraill i barcio ceir ac o bosib gallai hyn arwain at fwy o geir ym maes parcio ei theulu. Nid oedd y Cynghorydd Ryder mewn unrhyw fodd yn elwa'n bersonol o'r busnes yn ariannol nac o ran perchnogaeth tir/eiddo.

PENDERFYNWYD rhoi gollyngiad i'r Cynghorydd Ryder siarad yn unig ar y sail bod natur buddiant yr aelod yn golygu na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo yn niweidio hyder y cyhoedd yn y modd y mae busnes yr awdurdod perthnasol yn cael ei gynnal (Rheoliad 2(d), o Reoliadau Pwyllgor Safonau (Rhoi Gollyngiadau) (Cymru) 2001). Rhoddwyd y gollyngiad am gyfnod o 12 mis.

9 Cynghorydd Helen Swan Jones, Cyngor Tref Cei Newydd

Derbyniwyd cais dyddiedig 27 Mehefin 2024 oddi wrth y Cynghorydd Helen Swan Jones, Cyngor Tref Ceinewydd i siarad a phleidleisio ynghylch datblygiad tai arfaethedig Barcud ar faes parcio Heol Tywun, Sgwâr Uplands, Cei Newydd. Roedd Barcud eisoes wedi cyflwyno cais am gyngor cyn ymgeisio, ac roeddent wedi cynnal cyfarfod cyhoeddus. Nid oedd Cyngor Tref Ceinewydd wedi trafod y cais oherwydd y perygl o ragbenderfynu, ac roedd hyn yn unol â'r cyngor a roddwyd gan y Clerc. Roedd y Clerc wedi cael gwybod y byddai Barcud yn cyflwyno'r cais cynllunio llawn yn fuan. Roedd y Cynghorydd Jones yn byw yn yr eiddo rhent ar Sgwâr Uplands a oedd gyferbyn â'r datblygiad tai arfaethedig.

PENDERFYNWYD rhoi gollyngiad i'r Cynghorydd Swan Jones siarad yn unig ar y sail bod natur buddiant yr aelod yn golygu na fyddai cyfranogiad yr

aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo yn niweidio hyder y cyhoedd yn y modd y mae busnes yr awdurdod perthnasol yn cael ei gynnal, a bod y buddiant yn gyffredin i'r aelod a chyfran sylweddol o'r cyhoedd yn gyffredinol (rheoliad 2 (d) a (e), o Reoliadau Pwyllgor Safonau (Rhoi Gollyngiadau) (Cymru) 2001). Rhoddwyd y gollyngiad am gyfnod o 12 mis.

10 Cynghorydd Tomas Davies, Cyngor Tref Cei Newydd

Derbyniwyd cais dyddiedig 28 Mehefin 2024 oddi wrth y Cynghorydd Tomas Davies, Cyngor Tref Ceinewydd i siarad a phleidleisio ynghylch y tir yn y maes parcio canolog yng Ngheinewydd. Roedd ei frawd yn berchen ar eiddo gyferbyn ag ardal y datblygiad arfaethedig.

PENDERFYNWYD rhoi gollyngiad i'r Cynghorydd Davies siarad yn unig ar y sail bod natur buddiant yr aelod yn golygu na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo yn niweidio hyder y cyhoedd yn y modd y mae busnes yr awdurdod perthnasol yn cael ei gynnal (Rheoliad 2(d), o Reoliadau Pwyllgor Safonau (Rhoi Gollyngiadau) (Cymru) 2001). Rhoddwyd y gollyngiad am gyfnod o 12 mis.

11 Cynghorydd Ywain Davies, Cyngor Tref Cei Newydd

Derbyniwyd cais dyddiedig 28 Mehefin 2024 oddi wrth y Cynghorydd Ywain Davies, Cyngor Tref Ceinewydd i siarad a phleidleisio ynghylch datblygiad tai cymdeithasol Barcud ym maes parcio Ceinewydd. Ei frawd (Rhys Davies) perchennog Gwerthwyr Tai Morgan a Davies oedd asiant y teulu Williams a werthodd y tir i Barcud. Nid oedd gan Morgan a Davies unrhyw gysylltiad pellach â'r tir hwn.

PENDERFYNWYD rhoi gollyngiad i'r Cynghorydd Davies siarad a phleidleisio ar y sail bod natur buddiant yr aelod yn golygu na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo yn niweidio hyder y cyhoedd yn y modd y mae busnes yr awdurdod perthnasol yn cael ei gynnal (Rheoliad 2(d), o Reoliadau Pwyllgor Safonau (Rhoi Gollyngiadau) (Cymru) 2001). Rhoddwyd y gollyngiad am gyfnod o 12 mis.

12 Cofnod o Gamau Gweithredu

CYTUNWYD i nodi cynnwys y Cofnod o Gamau Gweithredu fel y'i cyflwynwyd.

13 Diweddariad ar faterion Panel Dyfarnu Cymru

CYTUNWYD i nodi'r cynnwys.

14 Diweddariad Cod Ymddygiad Swyddog Monitro Cwarter 4

CYTUNWYD i nodi'r cynnwys.

Dywedwyd bod disgwyl y byddai achos gan Banel Dyfarnu Cymru ynghylch y cyn Gynghorydd Steve Davies yn cael ei gynnal yn fuan.

15 Adroddiad Blynyddol 2023/24 y Pwyllgor Moeseg a Safonau

Ystyriwyd fersiwn ddrafft Adroddiad Blynyddol Moeseg a Safonau 2023/24. CYTUNWYD i gymeradwyo Adroddiad Blynyddol drafft y Pwyllgor Moeseg a Safonau 2023/24 cyn y byddai'n cael ei gyflwyno gerbron y Cyngor yn amodol ar wneud mân newidiadau i'r dyddiadau, ychwanegu llun / manylion un o'r Aelodau a chywiro sillafu.

16 Hyfforddiant Cynghorau Tref a Chymuned

Ystyriwyd hyfforddiant ynghylch y Cod Ymddygiad ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned. Yn dilyn trafodaeth, CYTUNWYD:-

(i) y byddai'r swyddogion yn paratoi e-bost ac yn ei ddosbarthu i'r Aelodau yn gofyn am eu cynigion a'r hyn y byddent yn ei ffafrio o ran hyfforddiant ynghylch y Cod Ymddygiad yn y dyfodol; a

(ii) y dylid gofyn i Arweinwyr y grwpiau gwleidyddol ddweud wrth Aelodau eu Grwpiau am roi gwybod i'w Cynghorau Tref neu Gymuned o'r angen i ymateb i'r e-bost a ddosbarthwyd ynglŷn ag ymholiad y Pwyllgor am hyfforddiant ynghylch y Cod Ymddygiad, hyd yn oed os nad oeddent yn dymuno derbyn hyfforddiant.

17 Asesiad Cydymffurfiaeth Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol

Ystyriwyd Asesiad Cydymffurfiaeth Arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol. Dywedwyd bod gweithdy wedi'i gynnal gydag arweinwyr y grwpiau ar 5 Mehefin 2024:

· Y Cynghorydd Bryan Davies (Plaid Cymru)
· Y Cynghorydd Elizabeth Evans (Y Democratiaid Rhyddfrydol)
· Y Cynghorydd Rhodri Evans (Grŵp Annibynnol)

Roedd Arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol o'r farn fod y cyfarfodydd misol gyda'r Swyddog Monitro yn effeithiol iawn ac roeddent yn ddiolchgar amdanynt. Cafwyd trafodaeth ynghylch yr amser mwyaf addas i arweinwyr y grwpiau gyfarfod â'r Pwyllgor Moeseg a Safonau a chytunwyd y byddai'n well pe bai'r cyfarfod swyddogol yn cael ei gynnal yn yr hydref yn hytrach nag ym mis Ionawr oherwydd y pwysau sy'n ymwneud â gosod y gyllideb ym mis Ionawr. Roedd arweinwyr y grwpiau gwleidyddol hefyd yn barod i fynychu cyfarfodydd ar adegau eraill o'r flwyddyn pe bai'r angen yn codi.

Cytunwyd ar amserlen ar gyfer y flwyddyn fwrdeistrefol fel a ganlyn:

• Gweithdy yn dilyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (diwedd Mai/dechrau Mehefin)
• Arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol i fynychu cyfarfod y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn yr hydref (Medi/Hydref)
• Gweithdy ar ddiwedd y flwyddyn fwrdeistrefol (Mai – cyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol)

Mewn gweithdy a gynhaliwyd ar 29 Ebrill 2024 lle cyfarfu'r Pwyllgor ag Arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol yn unigol, asesodd y Pwyllgor i ba raddau yr oedd arweinwyr y grwpiau gwleidyddol wedi gwneud y canlynol:
1. cymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau'r grŵp
2. cydweithredu â'r Pwyllgor wrth arfer ei swyddogaethau
3. nodi unrhyw anghenion hyfforddi

Dyma asesiad y Pwyllgor:
• Roedd arweinwyr y grwpiau wedi cymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau'r grŵp, ac wedi gwneud hynny mewn modd ystyrlon;
• Mae Arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol yn ymgysylltu ac yn cydweithio â'r Pwyllgor Moeseg a Safonau;
• Mae'n gadarnhaol nad oes nifer uchel o atgyfeiriadau i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru;
• Mae angen cynnwys hyfforddiant gorfodol ar y templed cydymffurfio;
• Mae angen cynnwys hyfforddiant ychwanegol y mae'r Pwyllgor Moeseg a Safonau wedi gofyn amdano ar y templed cydymffurfio;
• Dylai aelodau nad ydynt eisoes wedi cyflawni'r hyfforddiant ynghylch y cyfryngau cymdeithasol, wneud hynny (os ydynt yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol)
• Mae angen i Arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol rannu adroddiadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Phanel Dyfarnu Cymru gyda'u grŵp a'u trafod yn eu cyfarfodydd grŵp;
• Canfu Arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol fod y cyfarfodydd misol gyda'r Swyddog Monitro yn effeithiol iawn ac roeddent yn ddiolchgar amdanynt.

Cynigiwyd bod y newidiadau canlynol yn cael eu gwneud i'r templed cydymffurfio:

- Diwygio'r templed er mwyn ei wneud yn haws i'w gwblhau ac er mwyn i Arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol ddarparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar y Pwyllgor Moeseg a Safonau;
- Ail-eirio penawdau;
- Ei wneud yn fwy strwythuredig;
- Cynnwys blwch tystiolaeth Ie/Na;
- Sicrhau nad yw'r templed yn rhy ben agored;
- Cynnwys argymhellion y flwyddyn flaenorol ar y templed.

O ran y trothwy cydymffurfio, felly, ystyrid:

- bod angen ychwanegu hyfforddiant gorfodol at y templed cydymffurfio;
- bod angen cynnwys hyfforddiant ychwanegol at y templed cydymffurfio;
- y dylai aelodau nad ydynt eisoes wedi cyflawni hyfforddiant ar y cyfryngau cymdeithasol, wneud hynny (os ydynt yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol)
- bod angen i Arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol rannu adroddiadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Phanel Dyfarnu Cymru gyda'u grŵp a'u trafod yn eu cyfarfodydd grŵp

Yna trafodwyd y Templed Cydymffurfio gan Arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol. Teimlai'r Arweinwyr bod y cwestiynau'n rhy agored ac efallai y byddai'r wybodaeth y byddai'r Pwyllgor ei hangen, yn cael ei hepgor. Rhoddwyd pwyslais ar yr angen am fanylion a thystiolaeth. Cytunwyd i sefydlu gweithgor o'r Pwyllgor er mwyn adolygu'r templed. Mae nifer yr aelodau sydd wedi mynychu hyfforddiant ar y cyfryngau cymdeithasol i'w ychwanegu at y templed. Cytunwyd mai Caryl Davies, Gail Storr, Alan Davies a'r Swyddog Monitro fyddai'n aelodau o'r gweithgor.
Roedd y templed wedi'i adolygu: Holiadur i Arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol ynghylch Cydymffurfio â'u Dyletswyddau.

CYTUNWYD i nodi'r sefyllfa bresennol a fyddai'n cael ei chynnwys yn Adroddiad Blynyddol Moeseg a Safonau.

18 Adroddiad am y gweithdy a gynhaliwyd ddechrau'r flwyddyn fwrdeistrefol gydag Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol ac adolygiad o'r templed asesu ynghylch Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol yn cydymffurfio â'u dyletswyddau

Roedd y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn cadw'n annibynnol ar faterion gweithredol a byddai'n gofyn i Arweinwyr y Grŵp adrodd unwaith y flwyddyn. Byddai'r Pwyllgor wedi hynny yn cyfarfod â phob arweinydd grŵp yn anffurfiol i archwilio ei adroddiad.
Byddai adroddiad blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn cynnwys y canlynol:

a) crynodeb byr o'r camau a gymerwyd gan arweinwyr grwpiau i gyflawni'r ddyletswydd,
b) ei farn ynghylch a wnaed digon,
c) unrhyw argymhellion ynglŷn â'r hyn y gall arweinwyr grwpiau ei wneud i gyflawni eu dyletswyddau,
d) unrhyw argymhellion ynglŷn â'r hyn y gellir ei wneud i gadw tystiolaeth o gamau arweinwyr grwpiau
e) unrhyw argymhellion o ran yr hyn y gellir ei wneud i wella'r drefn o adrodd
f) pa hyfforddiant ychwanegol sydd ei angen, os oes yna o gwbl
g) unrhyw ddarnau o waith a allai gael eu gwneud yn y dyfodol

Roedd arweinwyr y grwpiau wedi cwblhau eu hadroddiadau erbyn 15/4/24. Ar 29/4/24, cynhaliwyd gweithdy gyda phob un o arweinwyr y grwpiau yn unigol:
· Y Cynghorydd Bryan Davies (Plaid Cymru)
· Y Cynghorydd Elizabeth Evans (Democratiaid Rhyddfrydol)
· Y Cynghorydd Gareth Lloyd (Grŵp Annibynnol)

Bu i'r Pwyllgor asesu i ba raddau yr oedd arweinwyr y grwpiau gwleidyddol wedi:
1. cymryd camau rhesymol i hybu a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau'r grŵp
2. cydweithredu â'r Pwyllgor wrth arfer swyddogaethau'r Pwyllgor
3. nodi unrhyw anghenion o ran hyfforddiant

Dyma asesiad y Pwyllgor:

- Roedd arweinwyr y grwpiau wedi cymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau'r grŵp, ac wedi gwneud hynny mewn modd ystyrlon;
- Mae Arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol yn ymgysylltu ac yn cydweithio â'r Pwyllgor Moeseg a Safonau;
- Mae'n gadarnhaol nad oes nifer uchel o atgyfeiriadau i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru;
- Mae angen cynnwys hyfforddiant gorfodol ar y templed cydymffurfio;
- Mae angen cynnwys hyfforddiant ychwanegol y mae'r Pwyllgor Moeseg a Safonau wedi gofyn amdano ar y templed cydymffurfio;
- Dylai aelodau nad ydynt eisoes wedi cyflawni'r hyfforddiant ynghylch y cyfryngau cymdeithasol, wneud hynny (os ydynt yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol)
- Mae angen i Arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol rannu adroddiadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Phanel Dyfarnu Cymru gyda'u grŵp a'u trafod yn eu cyfarfodydd grŵp;
- Canfu Arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol fod y cyfarfodydd misol gyda'r Swyddog Monitro yn effeithiol iawn ac roeddent yn ddiolchgar amdanynt.
- Cynigiwyd bod y newidiadau canlynol yn cael eu gwneud i'r templed cydymffurfio:
    - Diwygio'r templed er mwyn ei wneud yn haws i'w gwblhau ac er mwyn i Arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol ddarparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar y Pwyllgor Moeseg a Safonau;
    - Ail-eirio penawdau;
    - Ei wneud yn fwy strwythuredig;
    - Cynnwys blwch tystiolaeth Ie/Na;
    - Sicrhau nad yw'r templed yn rhy ben agored;
    - Cynnwys argymhellion y flwyddyn flaenorol ar y templed.

CYTUNWYD i wneud y canlynol:

(i) nodi sut y bydd Arweinwyr y Grwpiau a'r Pwyllgor yn gweithio gyda'i gilydd, nodi pa mor aml y cytunwyd y byddai cyfarfodydd yn cael eu cynnal a nodi'r trothwy cydymffurfio; a

(ii) cytuno ar y mecanwaith adrodd diwygiedig: Holiadur i Arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol ynghylch Cydymffurfio â'u Dyletswyddau yn amodol ar adolygu'r cwestiynau yn flynyddol er mwyn adlewyrchu unrhyw newidiadau.

19 Cofnodion Fforwm Pwyllgor Safonau Cymru

CYTUNWYD i nodi'r cofnodion er gwybodaeth yn amodol ar nodi bod cyfarfod arall wedi'i gynnal ar 24 Mehefin 2024 ac y byddai'r Cadeirydd yn rhoi adroddiad am y cyfarfod hwnnw yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor hwn. Wrth wneud hynny, byddai'r Cadeirydd hefyd yn ymateb i'r materion a godwyd gan Aelod o'r pwyllgor am yr hyn a drafodir yng nghyfarfodydd y Fforwm gan gynnwys statws y Fforwm.

20 Canfyddiadau Cod Ymddygiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus

CYTUNWYD i nodi Canfyddiadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ynghylch materion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad.

21 Blaenraglen Waith

CYTUNWYD i nodi cynnwys y Flaenraglen Waith fel y'i cyflwynwyd yn amodol ar nodi bod y gwrandawiad wedi'i aildrefnu o 31 Gorffennaf 2024 i 23 Awst 2024. Roedd gwrandawiad ychwanegol wedi'i drefnu ar gyfer 24 Medi 2024, yn amodol ar sicrhau bod Aelodau'r Pwyllgor ar gael i fod yn bresennol.

22 Ystyried unrhyw gais arall am ollyngiad a dderbyniwyd ers cyhoeddi'r agenda

Dim.

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Safonau a Moeseg a gynhaliwyd ar Dydd Gwener, 23 Awst 2024

Cadeirydd: _____

Dyddiad: _____